

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Croesfannau Hafren

Cyflwyniad

1. Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2013 cytunwyd y câi papur ar Dollau Pontydd Hafren ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mehefin. Mae'r papur hwn yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran Croesfannau Hafren a barn sefydliadau busnes ar ddyfodol Croesfannau Hafren.

Y sefyllfa bresennol

2. Nid yw Croesfannau Hafren na'r gyfundrefn dollau gysylltiedig yn fater datganoledig.
3. Dyfarnwyd y contract i gynllunio, adeiladu, ariannu a gweithredu Ail Groesfan Hafren i Severn River Crossing ccc ym mis Ebrill 1990.
4. Mae'r Cytundeb Consesiwn rhwng Llywodraeth y DU a Severn River Crossings, sy'n rhagnodi sut y caiff y ddwy bont eu rheoli, yn gweithredu yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Pontydd Hafren 1992.
5. Cyfyngir cyfnod y Consesiwn i uchafswm o 30 mlynedd, er y bydd yn dod i ben, mewn gwirionedd, pan fydd Severn River Crossings wedi casglu swm penodedig o arian o dollau. Y swm penodedig hwnnw yw £1,028.9m (yn ôl prisiau Gorffennaf 1989), yn dilyn diwygiad i'r cytundeb a wnaed gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2012.
6. Ar sail y derbyniadau presennol, rhagwelir y dylai'r Consesiwn ddod i ben yn 2018.
7. Mae gan Lywodraeth y DU bwerau o dan Ddeddf Pontydd Hafren i godi tollau am hyd at 35 mlynedd. I bob diben, mae hyn yn darparu ar gyfer codi tollau am bum mlynedd arall ar ôl cyfnod hiraf posibl y Consesiwn.
8. Hysbysodd Llywodraeth y DU y Pwyllgor Materion Cymreig y llynedd fod dyledion ychwanegol nad oedd darpariaeth ar eu cyfer yn y Cytundeb Consesiwn roedd angen eu talu.
9. Nododd y Prif Weinidog yn glir fod Llywodraeth Cymru o'r farn, ar ôl i'r Consesiwn ddod i ben, y dylai penderfyniadau ynghylch tollau yn y dyfodol gael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw hefyd at y rôl y gallai'r tollau eu chwarae o ran cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth allweddol.

Ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol

10. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o Busnes Cymru er mwyn trafod dyfodol Croesfannau Hafren a materion cysylltiedig. Atodir nodyn o'r cyfarfod sy'n nodi barn busnesau a fynegwyd yn y cyfarfod hwnnw i'r papur hwn.

Cam nesaf

11. Gofynnir i'r Cyngor:

- a) nodi'r sefyllfa bresennol;
- b) cytuno bod gan Gyngor Adnewyddu'r Economi ddiddordeb mewn cyfrannu at ystyriaethau yn y dyfodol.

Crynodeb o gyfarfod arbennig o Busnes Cymru – 9.5.2013
Croesfannau Hafren

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o Busnes Cymru er mwyn trafod dyfodol Croesfannau Hafren a materion cysylltiedig. Ar ôl y cyfarfod cadarnhawyd bod disgwyl i'r consesiwn presennol ddod i ben rywbryd yn 2018 pan fydd y Croesfannau yn trosglwyddo i berchenogaeth gyhoeddus. O dan Ddeddf Pontydd Hafren 1992 gellir parhau i gasglu'r tollau am bum mlynedd ar ôl i'r consesiwn ddod i ben. Dim ond os caiff deddfwriaeth newydd ei phasio y bydd modd casglu tollau ar ôl y cyfnod hwnnw o bum mlynedd.

Yn dilyn trafodaethau manwl ynghylch pwysigrwydd Croesfannau Hafren i Gymru ac effaith tollau ar fusnesau a'r economi ehangach cytunwyd yn fras ar y pwyntiau canlynol.

- 1) Mae'n bwysig iawn ystyried Croesfannau Hafren fel rhan o'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach ac nid ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn wir o ran ariannu'r gwaith parhaus o gynnal a chadw'r Croesfannau a gwelliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith traffyrdd yn Ne Cymru.
- 2) Pan fydd Croesfannau Hafren yn trosglwyddo i berchenogaeth gyhoeddus nid oes gan sefydliadau busnes farn gref ynglŷn â pha gorff cyhoeddus sy'n berchen ar y strwythurau ffisegol ar yr amod y caiff y Croesfannau eu cynnal a'u cadw'n dda a'u gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.
- 3) Byddai sefydliadau busnes yn disgwyl i system brisio gall gael ei chyflwyno cyn gynted ag y câr Croesfannau eu trosglwyddo i berchenogaeth gyhoeddus.
- 4) Efallai y byddai cefnogaeth i dollau ar ôl i'r cyfnod cychwynnol o bum mlynedd o berchenogaeth gyhoeddus ddod i ben pe bai diben y tollau yn cael ei ddeall yn glir a bod manteision amlwg i'r economi yn deillio o ddefnyddio'r tollau hynny ond byddai busnesau am chwarae rhan flaenllaw yn y broses o bennu'r tollau hynny.
- 5) Er y cydnabyddir y gall y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau trethu a benthyca olygu y bydd angen defnyddio incwm o dollau at ddibenion economaidd ehangach yn y byrdymor, dylai'r cyfnod hwn fod mor fyr â phosibl ac ni ddylai'r materion gwleidyddol sy'n ymwneud ar ariannu Llywodraeth Cymru gael blaenoriaeth dros y nod economaidd allweddol o sicrhau bod busnesau yng Nghymru mor gystadleuol â phosibl.
- 6) Byddai busnesau am gael system bendant y gallant ei defnyddio i gyfrannu at y broses deddfwriaethol a rheoliadol a fyddai'n pennu tollau newydd ar ôl i Groesfannau Hafren ddychwelyd i berchenogaeth gyhoeddus ac ar ôl i unrhyw dollau newydd gael eu cyflwyno ar

ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd, p'un a fydd hynny ar lefel y DU neu Gymru.

Ar hyn o bryd ni all Busnes Cymru ymrwymo i un safbwynt penodol ac mae gan Sefydliadau unigol wahanol safbwyntiau o ran yr hyn y dylid ei wneud yn y pen draw ond byddai'r cyfle i ymdrin â'r materion a godwyd uchod mewn modd strwythuredig, o dan nawdd Cyngor Adnewyddu'r Economi, yn galluogi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wneud penderfyniadau terfynol mwy hyddysg.